



## Gwaith Athrawon Cyflenwi yng Nghymru

### Cyflwyniad

Mae llawer o sylw wedi bod i fater athrawon cyflenwi dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf – ac yn haeddiannol felly. Mae Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oll wedi cyhoeddi adroddiadau ac wedi gwneud argymhellion.

Fodd bynnag, nid oes fawr ddim wedi newid er gwell ar gyfer y grŵp hwn o staff – staff sy'n greiddiol i'n system addysg.

Cyflwynwn rai ffeithiau pwysig ynghyd â barn UCAC ynghylch y ffordd ymlaen cyn y ddatl ar lawr y Cynulliad ar 10 Chwefror.

### Y sefyllfa ar hyn o bryd

- Mae'r system ar gyfer darparu athrawon cyflenwi wedi'i preifateiddio i raddau helaeth iawn; prin fod unrhyw Awdurdod Lleol (ALI) yn gweithredu pwll o athrawon cyflenwi bellach
- Mae asiantaethau wedi llenwi'r bwloch a adawyd gan yr ALLau; mae dros 40 ohonynt yn weithredol yng Nghymru
- Drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, mae asiantaeth New Directions wedi cael 'Cytundeb Fframwaith'; mae'r cytundeb yn para am 3 blynedd, tan Awst 2018, ac mae anogaeth gref iawn ar bob ALI ac ysgol i ddefnyddio'r cwmni penodol hwn

### Sgil effeithiau'r sefyllfa gyfredol

- Er bod yr asiantaethau'n cadw costau'n isel ar gyfer ALau ac ysgolion, maent yn gwneud hynny ar draul tâl ac amodau gwaith athrawon, ac yn creu grŵp o athrawon 'ail ddsbarth'
- Mae Adran 44.1 o'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (DdCAAY) yn nodi cyflog ac

amodau gwaith athrawon cyflenwi sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ALI neu ysgol a gynhelir; dim ond trwy gael eu cyflogi ar y telerau hyn y mae modd i athrawon gael mynediad at y Cynllun Pensiwn Athrawon

- Nid yw'r DdCAAY yn pennu telerau ar gyfer athrawon nad ydynt yn uniongyrchol gyflogedig gan ALI neu ysgol a gynhelir; felly **nid oes rhaid i asiantaethau ddarparu'r cyflog a thelerau sy'n statudol i athrawon eraill**
- Mae'n debyg bod athrawon cyflenwi'n unigryw yn y gwasanaethau cyhoeddus am eu bod yn cael eu talu llai na'u cymheiriaid â chytundebau parhaol neu dymor hir
- Heblaw am dâl sylweddol is, nid yw athrawon cyflenwi sy'n gweithio trwy asiantaeth ar y cyfan yn derbyn tâl gwyliau na salwch (na phremiwm ar eu tâl dyddiol i gymryd hyn i ystyriaeth), cyfraniadau at eu pensiwn, a phrin iawn yw'r cyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol
- Mae pryderon ynghylch sgil effeithiau'r system bresennol ar safonau addysgol

- Mae'r system gyfredol yn sugno arian ar lefel aruthrol o'r system addysg i goffrau cwmniâu preifat er elw nad ydynt yn cynnig unrhyw fuddsoddiad yn ein system addysg

### Y ffordd ymlaen: modelau a awgrymwyd

- Y ddogfen '**Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol**': nid yw hon yn mynd i'r afael â sefyllfa athrawon cyflenwi; i'r gwrthwyneb, mae'n gwneud popeth i annog y defnydd o asiantaethau, i dalu llai, ac hyd yn oed i ddefnyddio'r 'Rhagdirymiad Swedaidd' er mwyn osgoi cydymffurfio â'r Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth sy'n amddiffyn gweithwyr ar ôl 12 wythnos yn yr un swydd
- Mae'r Llywodraeth yn edrych ar fodelau darparu amgen ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus, gyda phwyslais ar **fodelau cydweithredol**; nid yw UCAC yn gwrthwynebu ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cwmni cydweithredol neu gydfuddiannol ar gyfer athrawon cyflenwi; fodd bynnag, mae gennym bryder na fyddai modd i gwmni o'r fath gynnig telerau ac amodau gwaith y DdCAAY
- **Marc ansawdd**: mae UCAC yn amheus iawn o effeithiolrwydd marc ansawdd; gallai gyfyngu ar rai o'r arferion gwaethaf, ond ni fyddai'n tacio sylfeini'r problemau cyfredol
- **Datganoli tâl ac amodau gwaith**: petai'r grym dros dâl ac amodau gwaith athrawon yn cael ei ddatganoli, byddai fwy o opsiynau ar gael i Lywodraeth Cymru; fodd bynnag, mae modd gweithredu i ryw raddau dan y drefn bresennol – nid ddylai'r diffyg grymoedd fod yn esgus i beidio gweithredu

### Y ffordd ymlaen: awgrym UCAC

- Mae UCAC yn gadarn o'r farn bod modd dod â'r system o athrawon cyflenwi nôl i ddwylo'r gwasanaethau cyhoeddus; byddai hynny'n caniatáu:
  - i athrawon gael mynediad at eu tâl ac amodau gwaith statudol dan y DdCAAY
  - i athrawon ddod dan systemau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Safonau Proffesiynol, Rheoli Perfformiad, Hyfforddiant Mewn Swydd, y Fargen Newydd ac ati
 Hynny yw, mi fyddai'r disgwyliadau yr un mor uchel, a'r amodau'n gydradd ac yn deg.
- Gyda'r defnydd o system ar-lein - a hynny'n fuddsoddiad ar lefel genedlaethol er mwyn creu darvoudion maint - byddai modd rhedeg system gyhoeddus, effeithiol, effeithlon; gallai weithio ar lefel genedlaethol neu ar lefel rhanbarthol; byddai'r system yn awtomatig i raddau helaeth, gydag athrawon eu hunain yn sicrhau bod eu manylion yn gyfredol, ac ysgolion yn gallu bwcio ar-lein; ni fyddai angen swyddfa llawn pobl i'w weithredu.

### Casgliad

Ffug-arbediad yw'r un a wneir drwy asiantaethau – neu unrhyw gorff arall nad yw'n rhoi mynediad i dâl ac amodau gwaith statudol athrawon.

Mae systemau addysg o safon uchel yn llwyr ddibynnol ar athrawon o safon uchel; buddsoddi yn y gweithlu drwy gynnig amodau teg yw'r buddsoddiad gorau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac mewn cynnal a chodi safonau.



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU  
 ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | [ucac@ucac.cymru](mailto:ucac@ucac.cymru)  
[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)